Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Llannon**

**Ysgol Gynradd Llannon**
**Llannon**
**Llanelli**
**SA14 6AE**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

10/03/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Llannon

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarpeir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Person Cofrestredig | Tamsin Owens |
| Lleoedd cofrestredig | 24 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 12 Rhagfyr 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae gan blant lais cryf ac maent yn cyfathrebu'n hapus. Mae plant yn teimlo'n ddiogel ac wedi ymgartrefu yn y lleoliad. Maent yn mwynhau rhyngweithio â'u cyfoedion a gyda staff ac yn gwneud dewisiadau ar sut i dreulio eu hamser yn archwilio'r amgylchedd chwarae. Mae eu sgiliau annibyniaeth yn datblygu yn briodol.

Mae staff yn gymwys ac yn cefnogi plant i gael profiadau chwarae a dysgu effeithiol. Mae ganddynt ddealltwriaeth o sut i gadw plant yn ddiogel ac iach ac wedi cwblhau eu hyfforddiant. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn cynllunio a chynnig gweithgareddau sydd yn cwrdd â diddordebau ac anghenion unigol y plant. Mae staff yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad, ond mae angen datblygu camau dysgu nesaf ar gyfer y plant er mwyn iddynt ddatblygu'n effeithiol.

Mae'r bobl sydd yn rhedeg y cylch meithrin yn cynnig amgylchedd digonol lle mae plant yn cael y rhyddid i symud o amgylch y safle yn hyderus. Mae'r adnoddau a'r ddarpariaeth yn addas ar gyfer oedran y plant ac yn cael eu cadw yn dda. Ond mae angen gwelliannau ar rhai elfennau diogelu ac iechyd er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnig safle sydd yn hollol ddiogel.

Mae'r arweinyddiaeth a rheolaeth yn foddhaol ar y cyfan, ac mae'r bobl sydd yn rhedeg y cylch meithrin a'r person â gofal yn rhagweithiol yn y broses o gyflwyno gwelliannau i'r lleoliad. Mae ganddynt lawer o bolisïau a gweithdrefnau effeithiol yn eu lle ac mae llawer o agweddau'r lleoliad wedi'u rheoli yn briodol. Fodd bynnag, rydym wedi darparu tri maes i'w wella, a saith argymhelliad ar gyfer gwella'r lleoliad.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae plant yn cyfathrebu yn hapus gan fod eu dymuniadau a'u hanghenion yn cael eu hystyried yn ofalus. Maent yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau sydd yn effeithio arnynt. Wrth gyrraedd y lleoliad, mae plant yn cael y rhyddid i ddewis eu chwarae ac yn archwilio byrddau a matiau lle mae ystod o adnoddau a theganau wedi eu gosod ar eu cyfer. Mae gan blant lais cryf ac maent yn gallu symud yn rhydd a dychwelyd i'r un gweithgaredd. Er enghraifft, mae gweithgareddau fel paentio a thoes yn cael eu gadael allan drwy gydol y sesiwn, ac mae plant yn mwynhau'r cyfle i fynd nôl ac ymlaen.

Mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus. Maent yn ymdopi yn dda iawn wrth fod ar wahân o'u rhieni ac mae ganddynt ymdeimlad o berthyn. Maent yn gyfarwydd iawn â threfn y bore ac yn ymwybodol o beth i wneud a ble i fynd pan mae staff yn cyhoeddi. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan yn hyderus wrth dacluso, aros mewn rhes i fynd i'r tŷ bach, neu fynd i ôl dŵr o'u droriau personol. Mae teimladau'r plant yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi. Er enghraifft, yn ystod amser cylch, mae plant unigol yn cael sylw a chefnogaeth yn cynnwys cwtsh os ydynt yn dymuno. Yn ystod amser snac, mae plant yn trafod beth mae eu rhieni wedi paratoi iddynt ac yn hollol gartrefol yng nghwmni'r staff. Wrth baratoi i fynd adref, mae plant yn trafod pwy sydd yn dod i'w casglu ac yn dangos cynhesrwydd wrth ffarwelio gyda'u cyfoedion.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'i gilydd a gyda'r staff yn gyson, gyda llawer yn cyfathrebu'n hapus. Mae llawer o blant yn egnïol ac yn mwynhau gwylio ei gilydd a chymryd rhan ar y cyd. Maent yn cael rhyddid sylweddol i archwilio'r amgylchedd dan do, ac yn dangos parch at eiddo a phob un yn gyson. Maent yn dilyn rheolau sydd yn effeithio arnynt hwy ac ar eraill. Er enghraifft, maent yn aros i eraill yn amyneddgar ar gyfer amser cylch, a rhannu adnoddau yn hawddgar.

Mae plant yn mwynhau eu chwarae ac yn cael y dewis i ddilyn eu greddfau a'u diddordebau eu hunain. Er bod plant yn gyfyng i chwarae gyda'r adnoddau sydd wedi eu paratoi iddynt, maent yn ymwybodol o'r ystod sydd wedi eu storio ac yn gofyn am adnoddau penodol a hynny'n cael sylw. Mae plant yn dewis cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n arwain at ymdeimlad da o fwynhad. Er enghraifft, mae plant yn chwarae gyda'r llestri ac yn cael boddhad wrth baratoi te i'w ffrindiau. Nid oes unrhyw bwysau amser ar y plant i gwblhau gweithgareddau.

Mae plant yn cael cyfleoedd addas ar gyfer eu hoedran sydd yn hyrwyddo eu datblygiad unigol. Maent yn annibynnol ac yn gallu gwneud pethau drostynt eu hunain gyda hyder. Er enghraifft, gwisgo eu cotiau, golchi dwylo yn dilyn bod yn y tŷ bach a dychwelyd bocsys ffrwyth a dŵr i'w bagiau unigol. Maent yn cael cyfleoedd i ddatrys problemau, datblygu'n greadigol ac arbrofi. Er enghraifft, wrth chwarae fel grŵp gyda pharasiwt, mae plant wrth eu bodd yn ceisio cadw'r bêl ar ben y defnydd, ac yn cyd-weithio i gyflawni hyn.

## Gofal a Datblygiad — Digonol

Mae staff yn deall y rhan fwyaf o bolisïau ac yn eu rhoi ar waith yn gyson. Maent yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol y plant. Mae staff yn rheoli risgiau yn barhaol o ddydd i ddydd yn effeithiol ac yn ymwybodol o ddiogelwch y plant a'u hunain. Mae llyfrau cofnodi damweiniau a digwyddiadau yn cael eu cwblhau, ynghyd â chadw manylion gweinyddu meddyginiaeth. Ond, nid oedd y rhain yn hollol gyson. Roddir blaenoriaeth i ddiogelu ac mae staff yn deall eu cyfrifoldebau i amddiffyn plant yn fanwl. Mae trefniadau'r dydd yn cael eu cyfathrebu yn glir gan ategu pwysigrwydd golchi dwylo ar ôl tŷ bach a chyn amser snac. Mae staff yn rheoli cymarebau yn effeithiol yn enwedig pan mae plant yn gadael y brif ystafell chwarae i fynd i'r tŷ bach. Yn y tai bach, mae plant yn cael eu cefnogi i gymryd eu tro ac yna golchi a sychu eu dwylo. Maent yn derbyn canmoliaeth wrth gwblhau a chyflawni'r arferion yma yn annibynnol. Mae gweithdrefnau ac arferion glanhau a hylendid clir yn eu lle. Er enghraifft, cyn ac ar ôl amser snac, mae staff yn glanhau byrddau. Er ni welwyd y weithdrefn newid cewyn, maent yn cadw llyfr cofnodion, ond nid oedd hwn yn gyflawn.

Mae staff yn rhyngweithio yn gyson ac maent yn ceisio sicrhau eu bod yn hyrwyddo'r Gymraeg wrth barchu iaith cartrefi'r plant. Fodd bynnag, nid oedd y Gymraeg yn nodwedd gref ar y drefn ddyddiol. Mae'r rhyngweithio rhwng y staff a'r plant yn dangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Maent yn sensitif i anghenion a phrofiadau plant unigol ac yn fodelau rôl dda. Mae staff yn gosod arferion cadarn yn eu lle er mwyn datblygu dealltwriaeth y plant o ran ymddygiadau da a chyson. Maent yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd i glywed cwestiynau yn ystod amser cylch neu weithgareddau ac yn cael profiadau a chefnogaeth i ymateb a chynnig syniadau eu hunain. Er enghraifft, *"Pa gân chi moen canu? Beth i ni'n neud nesaf? Beth mae pawb yn cael heddiw?"* Mae staff yn ymwybodol o atgoffa plant am eu hanghenion. Er enghraifft, *"Ti moen y tŷ bach? Na – ti'n siŵr?*" a *"ti ishe dŵr?"*

Mae staff yn brofiadol, yn gymwys ac yn wybodus, ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant, a'r ffordd y mae hyn yn effeithio ar eu profiadau dysgu. Mae ganddynt ymwybyddiaeth o faterion amrywiaeth ac yn hyrwyddo hawliau'r plant. Maent yn hyrwyddo annibyniaeth y plant wrth eu hannog i fynd yn annibynnol i gasglu eu bocsys ffrwythau a fflasgiau ddŵr cyn eistedd gyda'i gilydd wrth y bwrdd. Mae staff yn nabod y plant yn dda iawn ac yn cynnig profiadau dysgu eang. Maent yn cadw cofnod o ddewisiadau'r plant sydd yn plethu mewn i'r broses cynllunio. Mae staff yn rhoi sylw manwl i'r broses yma gyda llyfr cynllunio yn nodi themâu a syniadau ar gyfer gweithgareddau'r tymor. Er enghraifft, roedd y thema 'Y Lindysyn Llwglyd' ar waith gyda thystiolaeth glir o weithgareddau pwrpasol yn cysylltu â nifer o feysydd dysgu fel iaith, rhifedd, dealltwriaeth natur a'r byd, lliwiau a siapau. Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth o arsylwadau a diddordebau'r plant yn eu ffeiliau i gysylltu â'r broses cynllunio er mwyn creu camau nesaf o ddatblygiad unigol y plant.

## Yr Amgylchedd — Digonol

Mae gan y bobl sydd yn rhedeg y cylch meithrin mesurau a pholisïau boddhaol ar waith er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i sicrhau diogelwch a lles y plant. Ar y cyfan, maent yn ceisio sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr derbyniol dan do. Ni welwyd y plant yn defnyddio'r ardal awyr agored. Mae'r person â gofal yn gosod trefniadau glanhau sylfaenol sydd yn adlewyrchu arferion hylendid boddhaol. Mae ganddynt arferion rheoli heintiau digonol ac yn lleihau unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch y plant. Mae asesiadau risg yn cael eu cwblhau ac mae rhain yn cael eu harolygu. Ond, nid oedd dyddiadau clir i ddangos y broses lawn. Mae driliau a gweithdrefnau tân ynghyd a darpariaeth ac offer tân yn cael eu gwasanaethu a chofnodi yn rheolaidd. Mae'r safle yn cynnig lefel da o ddiogelwch lle mae'r prif safle dan glo ar bob adeg. O ganlyniad, mae plant yn cael y rhyddid i symud yn annibynnol o amgylch eu hardaloedd dysgu dan do. Fodd bynnag, yn y neuadd, lle lleolir y cylch meithrin, gwelwyd cadeiriau wedi eu pentyrru yn uchel ac yn peri risg i blant. O ganlyniad, mae hwn yn faes i'w wella a tra nad oes camau brys, rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau.

Mae tystysgrifau diogelwch, er enghraifft profion trydan, yn gyfredol ac mae'r person â gofal yn cadw dogfennaeth gywir fel llyfr ymwelwyr, cofrestr y plant a chofnod arwyddo'r staff yn eu lle. Nid oedd tymheredd y neuadd, lle lleolir y cylch meithrin, yn cwrdd â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol sydd yn peri risg o ran diogelwch ac iechyd y plant. Yn yr un modd, nid oes ffôn uniongyrchol gyda'r cylch meithrin, yn atal rhieni ac asiantaethau allanol rhag cysylltu.

Mae'r person â gofal yn cynnig safle croesawgar, cyfeillgar ac amgylchedd digonol ar gyfer chwarae a dysgu. Mae'r brif ystafell yn hyrwyddo annibyniaeth y plant gan fod y person â gofal yn paratoi'r gwagle yn weddol ofalus er mwyn i blant cael y profiadau gorau posib. Mae'r amgylchedd mewnol hefyd yn cynnig ardal sydd yn galluogi lle i waith papur gael ei storio'n gyfrinachol.

Mae'r person â gofal yn darparu ystod o adnoddau da, er mwyn ennyn chwilfrydedd y plant. Mae adnoddau eang yn cael eu gosod allan, yn ogystal ag amrywiaeth pellach yn cael eu storio, er mwyn cylchdroi adnoddau i blant. Mae'r adnoddau a theganau o safon ac yn addas ar gyfer oedran a lefel datblygiad y plant. Er enghraifft, jig-sos, adnoddau peintio, toes, byrddau a sialc, byd bach, anifeiliaid y fferm, doliau, rhifau, blociau a beiciau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Digonol

Mae'r bobl sydd yn rhedeg y cylch meithrin a'r person â gofal yn rhannu eu gweledigaeth gyda'r staff, rhieni a defnyddwyr y gwasanaeth. Maent yn gwneud hyn drwy ddarparu polisïau clir a datganiad o ddiben sy'n adlewyrchu'r lleoliad. Mae rhain yn cael eu hadolygu. Ond, mae angen nodi dyddiadau adolygiadau blynyddol yn ogystal â llofnodion. Mae'r person â gofal yn dangos dealltwriaeth o gyfrifoldebau rheoliadol ac ar y cyfan, yn drefnus o ran cadw gwaith papur fel tystysgrifau, gwybodaeth a chofnodion. Mae hefyd tystiolaeth o gofnodion cyfarfodydd cynllunio wythnosol a chofnodion cyfarfodydd y pwyllgor sydd yn dangos bod y staff a'r pwyllgor yn cydweithio a chyfathrebu'n effeithiol er mwyn sicrhau cynnydd a llwyddiant y cylch meithrin. Ni roddodd y bobl sydd yn rhedeg y cylch meithrin wybod i AGC am ddiwrnodau cau'r cylch meithrin nac am newidiadau i staff. Tra nad oes angen camau brys, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau. Mae'r person â gofal yn rheoli rhifau a chymarebau staff i blant yn gywir ac yn goruchwylio'r plant yn dda.

Mae'r bobl sydd yn rhedeg y cylch meithrin a'r person â gofal yn gwerthuso'r gofal yn briodol ac yn cyflwyno gwelliannau yn dilyn y broses. Maent yn cwblhau adroddiad ansawdd gofal bob blwyddyn ac yn casglu barn rhieni, plant a staff.

Mae'r person â gofal a'r staff yn gweithio'n agored ac yn effeithiol iawn. Maent wedi ffurfio perthynas cydweithredol sydd yn caniatáu iddynt ddefnyddio eu medrau a'u cryfderau i sicrhau bod y plant yn eu gofal yn cael profiadau pwrpasol a hapus. Mae gan y bobl sydd yn rhedeg y cylch meithrin system anwytho effeithiol. Ond, nid oeddynt yn cadw ffeiliau staff cyflawn. Fodd bynnag, oddi ar yr ymweliad, mae'r ffeiliau wedi eu cwblhau i gwrdd â rheoliadau. Yn yr un modd, nid yw'r bobl sydd yn rhedeg y cylch meithrin yn dilyn proses arfarniadau a goruchwyliaeth gywir yn rheolaidd. Tra nad oes angen camau brys, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau.

Mae gan y bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth a'r person â gofal partneriaethau da gyda'r ysgol lle lleolir y cylch meithrin, ynghyd a chysylltiadau cryf ac effeithiol gyda swyddogion cefnogol. Dywedodd staff eu bod wedi ymgartrefu'n gyflym yn y lleoliad ac yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth i ddatblygu a mynychu hyfforddiant parhaol. Dywedodd y rheini eu bod yn hapus iawn gyda'r cylch meithrin a bod staff yn hawddgar ac yn cynnig gofal cariadus i'w plant. Roedd rhieni yn ganmoladwy am y ffordd y mae gwybodaeth yn cael eu rhannu ac yn dweud bod eu plant wedi setlo yn gyflym ac yn hapus iawn.

**Argymhellion er mwyn cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

Ychwanegwch R1. R2. ac ati a'r geiriad sydd ei angen â llaw. Nid rheoliadau yw'r rhain, ond safonau gofynnol cenedlaethol.

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 25 | During the inspection episode of 3/3/23 and 10/03/23 adult sized chairs were found to be stacked in columns of 5/6 chairs in the main school hall and left on a slight ledge/ridge in from of the windows, where children liked to look outside. The setting is run from the main school hall. This was deemed to be hazardous to children and the people who run the setting had not taken steps to ensure that the chairs were stored safely. | Newydd |
| 29 | During the inspection episode of 3/3/23 and 10/03/23 we found that the people who run the setting had not carried out regular staff supervisions and had not completed annual staff appraisals correctly. | Newydd |
| 31 | As a result of a failed inspection on 17.02.23, we found that the people who run the setting had not notified CIW that the setting would be closed on this day. During the inspection episode of 3/3/23 and 10/03/23 we found that the people who run the setting had not notified CIW of staff leaving the setting and the employment of new staff at the setting. | Newydd |

Lle byddwn yn nodi nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Argymhellion ar gyfer Cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad (argymhellion) |
| Standard 11 - Medication | Ensure that in the event of needing to administer medication to child, that the documentation is completed and signed correctly. |
| Standard 10 - Healthcare | Ensure that all nappy changing records are completed consistently in line with the setting's policy and procedures. |

| | |
|---|---|
| Standard 4 - Meeting individual needs | Staff to develop levels of confidence to communicate with children in Welsh in order to support the setting's vision of Welsh medium provision. |
| Standard 7 - Opportunities for play and learning | Ensure that children are observed and that what they do and how they progress is recorded to help plan for next steps for the children's play, learning and development. |
| Standard 5 - Records | Ensure that all risk assessments and policies are signed  as and when required to demonstrate the update/review process. |
| Standard 22 - Environment | Ensure that the main room is maintained at a temperature of at least 18 degrees Centigrade (65 degrees Fahrenheit). |
| Standard 22 - Environment | Ensure that there is access to a telephone (direct line to the Cylch Meithrin) so that parents and other external organisations have direct contact with the setting. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 14/06/2023